



Heledd Fychan AS  
Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

31 Mawrth 2022

Annwyl Heledd,

Diolch am grybwyll y mater pwysig o hygyrchedd brechlynnau wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, yn ystod yr eitem ar yr agenda ynghylch y Datganiad a'r Cyhoeddiad Busnes yn y Senedd ar 15 Mawrth.

Wrth inni bontio o bandemig i endemig, mae cyfrifoldeb arnom i ddysgu o'r 2 flynedd ddiwethaf er mwyn sicrhau bod GIG Cymru yn ddigon gwydn i ymdopi ag unrhyw amrywiolyn COVID-19 sy'n peri pryder neu ddigwyddiadau mawr yn y dyfodol. Bydd cynigion byrddau iechyd yn y dyfodol ar gyfer rhoi brechiadau COVID-19 yn cael eu cynnwys yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, sy'n amlinellu eu hamserlen a'u modelau gwasanaeth arfaethedig yn ogystal â'u polisiau o ran cynyddu'r niferoedd sy'n cael brechiad, y capasiti ymchwydd, a'r gweithlu a sicrhau mwy o degwch. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt fynd ati'n rheolaidd i adolygu a gwerthuso'r adnoddau a'r ystadau sydd ar gael iddynt, er mwyn addasu eu modelau gweithredu i sicrhau cynaliadwyedd y rhaglen frechu wrth symud ymlaen.

Mae meini prawf eithaf cyfyng er mwyn bod yn gymwys ar gyfer rhaglen brechiadau atgyfnerthu y gwanwyn: pobl dros 75 oed, preswylwyr oedrannus cartrefi gofal, a phobl dros 12 oed sy'n imiwnoataliedig. Nifer cymharol fach o bobl yw hwn, y bydd rhai ohonynt yn cael ymweliad yn eu cartref.

Fel byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nod hirdymor Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yw cyrraedd pwynt yn y rhaglen frechu pan allai'r bwrdd iechyd roi ei Ganolfannau Brechu Torfol yn ôl i'r awdurdodau lleol, gan alluogi cymunedau i ddefnyddio'r lleoliadau at eu diben gwreiddiol. Gan gydweithio â'i 3 awdurdod lleol i werthuso'r niferoedd y rhagwelir y byddant yn cael eu brechu, mae wedi dod i'r casgliad y bydd cau'r 2 Ganolfan Brechu Torfol a gweithio ar draws y 3 safle sy'n weddill yn golygu bod modd cyfuno'u gweithlu, gan alluogi gwell cynaliadwyedd.

Mae lleoliad Canolfannau Brechu Cymunedol wedi'i ystyried yn ofalus, er mwyn iddynt fod mor hygyrch ag y bo modd i'r boblogaeth fwyaf eang. Bu sicrhau ei bod yn hawdd mynd atynt, bod parcio ar gael ar y safle, a'u bod yn gyfleus o ran llwybrau trafndiaeth gyhoeddus, yn faterion blaenllaw yn yr ystyriaethau hyn. Mae mentrau 'drwy ffenest y car' hefyd wedi'u sefydlu yn Ysbyty Seren ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Pharc Iechyd Prifysgol Keir Hardie (gan ddechrau ganol mis Ebrill), i gyd-daro â chyflwyno brechiadau atgyfnerthu y gwanwyn, er mwyn iddi fod yn haws i'r rhai sydd â phroblemau symudedd eu cyrraedd. O ran unigolion nad oes ganddynt drwydded yrru neu nad oes trafndiaeth ar gael iddynt, mae 'tacsï brechiadau' ar gael i'w drefnu, yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n bodloni meini prawf penodol.

Yn Strategaeth Frechu COVID-19 Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, pwysleisiwyd ein hymrwymiad parhaus i sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth gywir er mwyn gallu dewis yn wybodus a chael manteisio ar y brechlyn. Mae byrddau iechyd yn parhau i adolygu anghenion eu poblogaeth leol i'w gwneud mor hawdd â phosibl i bobl gael brechiadau mor agos i'w cartref ag y bo modd.

Gobeithio y bydd hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at leddfu'r pryderon a fynegwyd. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen frechlynnau, y strategaeth frechu, a diweddariadau dilynol ar gael yma:

<https://llyw.cymru/strategaeth-diweddariadau-brechu-covid-19>

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services